# Rheoli Argyfyngau yng Nghaerdydd

## Canllaw ymarferol

CARDIFF
CAERDYDD

## Cyflwyniad

Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw un ohonom yn cael profiad o argyfwng neu drychineb, ond trwy fod yn wybodus ac wedi'n paratoi, gallwn leihau'r risg i fywyd ac eiddo mewn argyfwng yn sylweddol.

Er mwyn lleihau effaith digwyddiad yng Nghaerdydd, mae'r Uned Rheoli Argyfyngau yn cydlynu'r gwaith o gynllunio a pharatoi adnoddau'r Cyngor er mwyn ymateb yn briodol i unrhyw argyfyngau mawr y bydd o bosibl yn eu hwynebu.

## Beth yw digwyddiad mawr?

At ddibenion rheoli argyfyngau, diffinnir digwyddiad fel:

*"Digwyddiad neu sefyllfa gydag ystod o ganlyniadau difrifol sy'n gofyn i drefniadau arbennig gael eu gweithredu gan un neu fwy o asiantaethau ymateb mewn argyfwng"*
*(Swyddfa'r Cabinet, 2016)*

Gall digwyddiad mawr gael ei achosi gan storm ddifrifol, damwain traffig neu weithred derfysgaidd, i enwi ond ychydig.

## Beth yw rheoli argyfyngau?

Rheoli argyfyngau yw datblygu cynlluniau/trefniadau i arwain Cyngor Caerdydd os digwydd bod argyfwng mawr.

Os bydd argyfwng mawr yn digwydd, caiff adnoddau'r Cyngor sydd ar gael eu defnyddio i gefnogi'r gwasanaethau brys a lliniaru effeithiau'r digwyddiad. Bydd Cyngor Caerdydd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u sefydliadau partner o ran rheoli argyfyngau er mwyn gallu cyflawni hyn.

## Pwy sy'n gyfrifol am reoli argyfyngau?

Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gweithio'n galed i sicrhau bod y DU mor barod ac y gall fod os digwydd bod argyfwng. Achosodd Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn atal argyfyngau, yn cynllunio amdanynt ac yn ymateb iddynt.

Mae sefydliadau a ddosberthir o dan y Ddeddf fel ymatebwyr categori un, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ysbytai yn ogystal ag awdurdodau lleol i gyd yn gyfrifol am...

- Asesu risgiau lleol er mwyn llywio parodrwydd at argyfwng
- Gwneud trefniadau er mwyn atal ac ymateb i argyfyngau
- Gwneud trefniadau ar gyfer parhad busnes
- Gwneud trefniadau er mwyn rhybuddio a rhoi gwybod i'r cyhoedd am argyfyngau
- Rhannu gwybodaeth a chydweithredu gyda sefydliadau eraill er mwyn gwella'r ymateb i argyfyngau

Fel dyletswydd ychwanegol o dan y Ddeddf, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am hyrwyddo rheoli parhad busnes o fewn y gymuned leol. Mae'n hanfodol bod pob sefydliad yn ysgrifennu ac yn cadw cynlluniau ar gyfer argyfyngau.

Hefyd mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i baratoi at argyfyngau fel y disgrifir yn:

- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999.
- Rheoliadau Ymbelydredd (Gwybodaeth Gyhoeddus am Barodrwydd mewn Argyfwng) 1999.
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr mewn Piblinellau 1996.

# Beth yw prif gyfrifoldebau Cyngor Caerdydd yn ystod argyfwng?

Mae gan Gyngor Caerdydd rôl sylweddol i'w chwarae mewn argyfwng mawr a bydd angen iddo ddyrannu staff ac adnoddau i helpu i leihau'r effeithiau ar y gymuned leol.

Bydd rhai aelodau staff yn ymgymryd â thasgau penodol yn ystod digwyddiad, mewn perthynas ag ymgilio, cysgodi, lles, gwybodaeth a chymorth; bydd rhai eraill yn parhau â'u dyletswyddau arferol, oherwydd mai'r nod gyffredinol yw darparu busnes fel arfer gyda chyn lleied o dorri ar draws ag sy'n bosibl.

Hefyd bydd gan gynghorwyr rôl allweddol i'w chwarae mewn argyfwng. Byddant yn hyb ar gyfer cyngor a gwybodaeth i'r cymunedau lleol.

Prif swyddogaethau Cyngor Caerdydd yw...

- Cefnogi'r gwasanaethau brys
- Cefnogaeth a gofal i'r cymunedau lleol a'r cymunedau ehangach
- Defnyddio adnoddau i liniaru effeithiau'r argyfwng
- Cydlynu ymateb y sefydliadau heblaw am y gwasanaethau brys
- Cymryd y rôl flaen wrth adsefydlu'r gymuned ac adfer yr amgylchedd wedi'r argyfwng

# Beth yw rôl yr Uned Rheoli Argyfyngau?

Mae gan yr Uned Rheoli Argyfyngau ddwy swyddogaeth benodol; paratoi at argyfyngau ac ymateb iddynt.

## Paratoi ar gyfer Argyfyngau

I helpu'r Cyngor i baratoi at argyfyngau yng Nghaerdydd, mae'r Uned Rheoli Argyfyngau...

- Yn cynnal ac yn cadw Cofrestr Risgiau Caerdydd
- Yn datblygu cynlluniau i atal/ lleihau'r risgiau a nodwyd
- Yn helpu'r Cyngor wrth wneud trefniadau i rybuddio a rhoi gwybod i'r cyhoedd am argyfyngau
- Yn helpu'r Cyngor i wneud trefniadau parhad busnes a hyrwyddo parhad busnes i fusnesau lleol
- Sicrhau bod y Cyngor yn rhan annatod o Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru

## Ymateb i Argyfyngau

Mae gan yr Uned Rheoli Argyfyngau swyddogaeth ymateb 24 awr, ac os bydd digwyddiad, bydd swyddog rheoli argyfyngau yn cysylltu â'r gwasanaethau brys ac yn helpu gyda chydlynu adnoddau'r Cyngor er mwyn darparu ymateb priodol.

## Yn ogystal...

Mae'r Uned Rheoli Argyfyngau hefyd yn rhan annatod o ddiogelwch mewn digwyddiadau yng Nghaerdydd, gan ddarparu cyngor fel rhan o'r

- Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch
  (Cyngor ar ddigwyddiadau ar feysydd chwaraeon)

- Panel Cysylltu ar gyfer Digwyddiadau
  (mae'n ymgynghori ar ddigwyddiadau mewn mannau agored)

## At ba fath o ddigwyddiad ydy'r Uned Rheoli Argyfyngau yn cynllunio?

Mae'r Uned Rheoli Argyfyngau yn cymryd rhan mewn llunio cynlluniau/ trefniadau ar gyfer...

- Tywydd garw
- Digwyddiadau cemegol
- Argyfyngau piblinellau
- Llygredd arfordirol
- Hofrenfeydd
- Digwyddiadau trafnidiaeth
- Diogelwch mewn meysydd chwaraeon
- Diogelwch mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr
- Porthladdoedd

…i enwi ond ychydig

# O ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o fanylion ar reoli argyfyngau yng Nghaerdydd…

EVAC Caerdydd: http://www.evaccardiff.co.uk/

**Neu cysylltwch â ni**


Cyfeiriad: Uned Rheoli Argyfyngau Caerdydd
Ystafell 151
Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

E-bost: emergencymanagement@cardiff.gov.uk

Gwefan: http://www.cardiff.gov.uk/evaccardiff/

Ffôn: 02920 871838